

Cynllun Trafnidiaeth Leol Bro Morgannwg

2015-2030



Active Travel Wales / Trafnidiaeth

Enw'r Awdurdod Lleol	Cyngor Bro Morgannwg
Prif gyswllt	Rob Thomas
Rhif ffôn	01446 704611
Cyfeiriad e-bost	drthomas@valeofglamorgan.gov.uk

Cynllun Trafnidiaeth Leol 2015–2030

Bro Morgannwg

Cynnwys	Tud
1. Cyflwyniad	1
2. Materion i'w trafod, Cyfleoedd ac Ymyriadau	11
3. Gwiriadau Statudol	49
4. Ymgynghoriadau	51
5. Monitro a Gwerthuso	52

1. Cyflwyniad

1.1 Dalgylch a Chyfnod y Cynllun

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys poblogaeth o dros 1.4 miliwn, ac yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau gweinyddol Caerdydd i gynnwys awdurdodau unedol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.

Mae'r Brifddinas-Ranbarth wedi ymrwymo i ddyfodol carbon isel fydd â rhwydwaith drafnidiaeth a diwylliant o symudoldeb sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at economi sy'n ffynnu ac at iechyd a lles ei thrigolion, a thrafnidiaeth gynaliadwy fydd y dewis cyntaf. I gyflawni hyn, mae angen i'r Brifddinas-Ranbarth gyflwyno polisiau a mesurau i fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cyfredol. Yn benodol, bydd yr amcangyfrifi o gynnydd o 24% yn nifer poblogaeth Caerdydd dros y 25 mlynedd nesaf yn golygu cynnydd net o 32% mewn lefelau traffig, a chynnydd o 20% yn y nifer o drigolion a fydd yn cymudo i'r gwaith. Gellir gwrthgyferbynnu hyn â'r anghyfartaledd mewn incwm, iechyd a gweithgaredd economaidd a welir yn ardaloedd gogleddol y Brifddinas-Ranbarth.

Mae degau o filoedd o siwrneiau'n dechrau ac yn gorffen yn y Brifddinas-Ranbarth bob dydd, ac mae'n her enfawr ac amrywiol i gyflawni'r gofynion trafnidiaeth niferus a chystadleuol yma. Er mai yng nghanol Caerdydd mae'r rhan fwyaf o'r siwrneiau yma wedi'u canoli, cydnabyddir bod nifer o symudiadau'n digwydd ledled y Brifddinas-Ranbarth, at amrywiaeth eang o bwrpasau.

Oherwydd hyn, bydd gofyn bod y Cynlluniau Trafnidiaeth Leol ar gyfer y rhanbarth yn cydnabod y ddaearyddiaeth economaidd a chymdeithasol amrywiol sy'n bodoli o fewn iddi, yn ogystal â'r marchnadoedd llafur a thai sy'n gorgyffwrdd. Mae angen i'r Cynlluniau yma feithrin agwedd gydweithredol at ddatblygiad economaidd anghenion trafnidiaeth y dyfodol er mwyn cyfleu symudoldeb gwell i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, a mynediad gwell i swyddi a gwasanaethau, a thrwy hynny, datblygu posibiliadau ar gyfer twf economaidd cynaliadwy.

Ledled y Brifddinas-Ranbarth, mae rhwydweithiau trafnidiaeth yn allweddol i lwyddiant Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Mannau â Blaenoriaeth, sy'n cynnwys buddsoddi penodol, cefnogi twf economaidd, lleihau syrthni economaidd, mynd i'r afael â thlodi ac annog teithio diogelach, iachach, cynaliadwy. Gellir gwneud hyn drwy'r dulliau isod:

- darparu cynnydd newydd mewn trafnidiaeth i gyflawni gofynion y dyfodol
- gwella mynediad a chysylltedd, a lleihau amser siwrneiau rhwng aneddiadau allweddol o fewn de-ddwyrain Cymru
- gwella mynediad i ystod ehangach o gyfleoedd gwaith drwy ehangu ystod trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig ar gyfer siwrneiau rhwng y cymoedd
- ehangu dalgylch llafur effeithlon ar gyfer busnesau, gan alluogi i gwmnïau lleol recriwtio o blith pwll sgiliau ehangach
- cefnogi twf clystyrau busnes yn y canolfannau trefol mwy (er enghraifft, mewn Ardaloedd Menter penodedig), i helpu i ysbarduno cystadleuaeth a dyfeisgarwch
- sicrhau nad ydy galw cynyddol am drafnidiaeth yn golygu cynnydd mewn costau i fusnesau oherwydd gorlawnder
- gwella adnoddau sy'n cefnogi'n prif faes awyrl, ein porthladdoedd a'n gorsafoedd terfynol

Mae gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o system fetro ar gyfer y Brifddinas-Ranbarth, sef rhwydwaith amlfoddol, chwim, sy'n cyfannu pob dull o drafnidiaeth, ac yn cynnig profiad i'r teithiwr o fedru prynu tocyn unigol ac yna 'cyrraedd a theithio', yn hanfodol i gyflawni'r amcanion trafnidiaeth yma.

Mae pob awdurdod lleol yn y Brifddinas-Ranbarth wedi ymrwymo i gyflawni'r weledigaeth hon, a byddant yn cefnogi ac yn cyd-weithio'n llawn â Llywodraeth Cymru a Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y fenter hon.

Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Leol (LTP) hwn yn ceisio ymgysylltu â'r mesurau trafndiaeth gynaliadwy angenrheidiol i i sicrhau bod Cyngor Bro Morgannwg yn cydymffurfio â'r gofynion cyfredol ac arferion da i hwyluso cyd-destun trafndiaeth gynaliadwy ar gyfer y cyfnod o 2015 tan 2020 yn ogystal ag edrych tuag at 2030 ...

Mae'r LTP hwn yn chwilio am ddulliau o sefydlu amodau gwell i gerddwyr, seiclwrwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus, ac o annog newid mewn dewisiadau teithio drwy ymbellhau oddi wrth arfer car y defnyddiwr unigol. Mae'n fwriad gan yr LTP fynd i'r afael â thagfeydd traffig drwy gynllunio gwelliannau i goridorau strategol y priffyrdd i gymudwyr sydd angen gyrru, yn ogystal â darparu gwell seilwaith ar gyfer cludiant trwm. Mae hefyd yn manylu ar flaenoriaethau diogelwch y ffyrdd allweddol y Fro.

Oherwydd bod y rhan fwyaf o siwrneiau car yn rhai byr, yn enwedig wrth deithio i ysgolion ac i siopau, gallai gwella amodau ar gyfer cerddwyr a seiclwrwyr arwain at ostyngiad yn nefnydd y car. Gall hyn hwyluso iechyd da a lles, lleihau'r effaith negyddol ar yr amgylchfyd a achosir gan geir a chynnig gwell fynediad i wasanaethau ac adnoddau. Ar ben hynny, gellid cynnig gwell gyfleoedd economaidd a gostwng y potensial ar gyfer damweiniau traffig.

Mae seilwaith traffig a gwasanaethau cynaliadwy, felly, yn ffurfio rhan bwysig o fywyd bob dydd cyfoes. Caiff hyn ei gydnabod fwyfwy gan arweinwyr polisi am y cyfraniad y gallant ei wneud at amcanion cenhedlaeth a pholisi, yn cynnwys lleihau'r effeithiau negyddol mae ceir yn eu cael ar yr amgylchfyd, lleihau tagfeydd traffig, gwella iechyd a lles, cynnig gwell fynediad i gyflogaeth, iechyd, addysg ac adnoddau eraill, a gostwng risg damweiniau ffordd. Mae darparu trafndiaeth gynaliadwy hefyd yn cynnig cyfle i gyflawni blaenoriaethau lleol allweddol mewn ystod o feysydd strategaeth.

Mae'r LTP hwn, ei bolisiâu a'i gynlluniau argymelledig, wedi codi yn ystod cyfnod paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo (LDP), a fydd yn cael ei fabwysiadu yn 2016 ac yn dod i ben yn 2026. Mae'r polisiâu trafndiaeth a argymhellir o fewn yr LTP hwn wedi cael eu cymeradwyo o fewn yr LDP wedi'i Adneuo ac wedi derbyn Asesiad Amgylchfydol Strategol, yn ogystal â chael ei asesu yng nghyd-destun polisiâu a deddfwriaeth gyfredol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.


Wrth drafod Trafnidiaeth (SP7), mae polisi strategol yr LDP yn darllen fel isod:

Rhoddir ffafriaeth i welliannau trafndiaeth gynaliadwy sy'n diwallu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylchfydol Bro Morgannwg, ac yn hyrwyddo'r amcanion a geir yng Nghynllun Trafnidiaeth Ranbarthol De-ddwyrain Cymru 2010–15.

Yn ogystal, rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau sy'n gwella diogelwch a hygyrchedd y ffyrdd, trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys diagram allweddol yr LDP a chynigion trafndiaeth y Cyngor fel yr amlinellwyd hwy yn yr LDP.

Polisi PG16 – Cynigion Trafnidiaeth



© Crown Copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023424

Cerdded a Seiclo

-  Llwybr seiclo cyfredol NCN88
-  Llwybr seiclo arfaethedig NCN 88
-  Llwybr seiclo cyfredol (nid NCN88)
-  Llwybr Seiclo Arfaerthedig (nid NCN88)

Y Rheilffordd


-  Trydaneiddio Llinell Bro Morgannwg yn cynnwys ceinciau i Benarth ac Ynys y Barri
-  Parcio a Theithio Cogan

Bysys

-  Llwybr Blaenoriaeth Bws Cyfredol
-  Llwybr Blaenoriaeth Bws Arfaethedig
-  Adnodd parcio a Theithio Bws

Priffyrdd

-  Cynlluniau Arfaethedig y Priffyrdd
- Cyfnewidfa**
-  Cyfnewidfa Arfaethedig Trên / Bws




	Parth y De-ddwyrain		Ardal Allweddol Aneddfeydd ac Adfywio		Ardal Cyfle Strategol		Adnodd Rheoli Gwastraff Ffafredig		Adnodd Parcio a Theithio
	Perthynas â'r Awdurdodau Lleol sy'n ffinio		Ardal Canolfan Gwasanaeth		Ardal Strategol Cyflogaeth		Cynigion Strategol y Prifffyrdd		Arfordir Treftadaeth Morgannwg
	Coridor Trafnidiaeth Strategol		Prif Aneddfa		Ardal Fenter Sain Tathan - Maes Awyr Caerdydd		Llwybr Arfaethedig y Rhwydwaith Seiclo Rhif 88		Rhwydwaith Strategol y Prifffyrdd
			Aneddfa Wledig Lai				Trydaneiddio'r Rheilffordd		

1.2 Cysylltiadau â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Mewn cydymffurfiaeth â Chanllaw'r LTP, rhaid i'r LTP amlygu sut bydd trafndiaeth yn cyflawni canlyniadau Cynllun y Llywodraeth, gan ganolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r buddion sydd i'w hennill o'n buddsoddiadau trafndiaeth yn y dyfodol yng Nghymru. Mae gan Drafndiaeth ran ganolog allweddol i'w chyflawni wrth gyfleu canlyniadau mewn sawl maes yng Nghynllun y Llywodraeth fel y gwelir yn Ffigwr 1. Yn ogystal, dylai'r Cynllun fod yn gyson â Strategaeth Trafndiaeth Cymru a'i ganlyniadau arfaethedig.

Ffigwr 1: Cysylltiadau Trafndiaeth â Chynllun Mannau â Blaenoriaeth y Llywodraeth



O gofio hyn, mae polisi strategol SP1, o fewn LDP wedi'i Adneuo'r Cyngor, yn ceisio 'gwella amodau byw a gweithio, hyrwyddo mwynhad o gefn gwlad a'r arfordir a rheoli adnoddau amgylcheddol pwysig'. Er mwyn cyfleu'r gofyn a benodwyd o gael 9,950 o unedau byw newydd erbyn 2026, mae'r LDP wedi diogelu tir mewn mannau a fydd yn sicrhau'r lefel uchaf posibl o gynaliadwyedd, dewis a mynediad i wasanaethau. Unwaith caiff yr LDP ei weithredu, bydd y cynigion ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn yr ardal yn cael eu datgelu.

Yng nghyd-destun trafndiaeth, bydd yn ceisio cyflawni hyn drwy:

- *hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy,*
- *cyflenwi seilwaith allweddol a gysylltir ag effeithiau datblygu,*
- *hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden cynaliadwy, a*
- *ffafrio datblygu sy'n hyrwyddo ffordd o fyw iach.*

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, drwy gydol proses yr LDP, mae tir wedi cael ei glustnodi ar y Glannau yn y Barri i ddarparu ardal drefol newydd, ac mae Ardal Fenter Sain Tathan / Maes Awyr Caerdydd a mannau defnydd cymysg eraill yn Sain Tathan wedi cael eu diffinio fel safleoedd strategol o dan bolisi SP2.

Mae'n fwriad gan Strategaeth yr LDP i gysylltu ardaloedd datblygu tai â chyfleoedd newydd am gyflogaeth, a thrwy hynny gynnig cyfle i drigolion Bro Morgannwg weithio o fewn y sir. Mae'r LTP hwn yn cynnwys camau i hyrwyddo cynlluniau a fydd yn cyfrannu at y seilwaith trafndiaeth sydd ei angen i gyflawni Strategaeth yr LDP.

Yn dilyn cyhoeddi Astudiaeth Effaith y Metro ym mis Hydref 2013, comisiynodd y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth waith pellach i fanylu ar y camau nesaf at gyflawni'r cywaith Metro. Clustnodwyd £62m ar gyfer y prosiect, sy'n cynnwys y gwaith cynllunio a chyflenwi gwelliannau eraill i drafndiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth. Ymhlith y cynlluniau cychwynnol yma, mae:

- gwella seilwaith y rheilffyrdd;
- uwchraddio gorsafoedd;
- cynlluniau parcio a theithio;
- gwella llwybrau bws a
- chyflwyno cynlluniau cerdded a seiclo.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol cyfagos i gyflenwi'r cysylltiadau seilwaith y bydd eu hangen i gefnogi dynesiad y Metro a'r Brifddinas-Ranbarth.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn cydnabod cyfraniad potensial gweithgareddau bob dydd megis cerdded a seiclo at iechyd. Cydnabuwyd hyn gan yr Adran Iechyd a'r Adran Drafndiaeth. Mae lefelau cerdded a seiclo wedi disgyn dros y blynyddoedd, a allai fod wedi cyfrannu at y dirywiad mewn lefelau gweithgareddau corfforol. Mae pob dull o drafndiaeth yn dylanwadu ar weithgareddau corfforol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac maent felly yn cynnig y posibilrwydd o gynyddu'r lefelau hyn (UCL, 2011). Cydnabu Strategaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru 2010 fod angen addysgu aelodau'r cyhoedd i fynd i'r afael â'u hiechyd eu hun, ac un ffordd o wneud hyn ydy cadw'n heini drwy gerdded a seiclo bob dydd o ddewis, er mwyn eu hiechyd. Gan fod 73% o drigolion gweithiol Bro Morgannwg yn cymudo mewn car (cyfrifiad 2011), mae'n flaenoriaeth drafndiaeth allweddol gan y Cyngor i annog mwy o bobl i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy. Bydd y Cyngor yn parhau i gyd-weithio â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i hyrwyddo ac annog defnydd diogelach, iachach a mwy cynaliadwy o ddulliau trafndiaeth.

Wrth gyflawni ei ddyletswydd yn unol â Deddf Teithio Llesol Cymru (2103), bydd y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â materion trafndiaeth mewn ardaloedd lle mae diffyg gweithgaredd corfforol o fewn ardal Cymunedau'n Gyntaf y Barri, yn ogystal â chlystyrau eraill o'r boblogaeth. Cyflawnir hyn drwy hyrwyddo cynlluniau trafndiaeth i wella isadeiledd trafndiaeth gynaliadwy, a thrwy hynny, hwyluso mynediad diogel a fforddiadwy i leoliadau cyflogaeth.

Bydd cynlluniau Ffyrdd Diogel mewn Cymunedau'n cael eu hyrwyddo i ddarparu gwasanaethau trafndiaeth effeithlon a fforddiadwy i gynnig y cyfle gorau posibl i annog teithio heini a diogel.

Mewn ardaloedd gwledig lle nad yw'n bosibl cyflawni cynlluniau Teithio Llesol oherwydd natur wledig yr ardaloedd, bydd darpariaeth trafndiaeth gymunedol a gwasanaeth bysys yn cael eu hyrwyddo i gefnogi gwelliannau mynediad i grwpiau defnyddwyr sy'n agored i niwed.

Bydd cynlluniau peirianyddiaeth diogelwch y ffyrdd yn cael eu gweithredu mewn lleoliadau risg uchel i leihau'r posibilrwydd o wrthdrawiadau yn unol â meini prawf risg y Cyngor, ac i dargedu grwpiau pobl sy'n agored i niwed fel y nodir yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru.

Darperir addysg diogelwch y ffyrdd, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd i annog dulliau teithio diogelach, iachach a mwy cynaliadwy'n benodol i bobl sy'n fwy agored i niwed yn unol â Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru.

Mae nifer o amcanion a chysylltiadau cyffredin rhwng y r LTP a Chynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP). Gallai'r rhain fod o fudd i atgyfnerthu a hwyluso cynaliadwyedd tymor hir hawliau tramwy a chyflawni amcanion trafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r Cyngor yn derbyn y gall cynlluniau gweithredu ar y cyd olygu ariannu a chyflawni mwy integredig ac uniongyrchol. Mae canllawiau'r LTP yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau cadw'n heini fel cerdded a seiclo fel ffordd o ddatrys y mater. Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o'r cyfle hwn i feithrin agwedd ehangach, mwy integredig at drafnidiaeth, ac i ystyried y rhwydwaith hawliau tramwy fel rhan ganolog o systemau trafnidiaeth trefol a gwledig a all gyfrannu at gyflawni holl amcanion trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

Fel Awdurdod y Priffyrdd, mae'n ddyletswydd statudol ar Fro Morgannwg i reoli a chynnal a chadw'r priffyrdd cyhoeddus sydd o fewn ei ffiniau, ac i ddarparu amodau diogel i holl ddefnyddwyr y priffyrdd. Mae'n cynnal archwiliadau dros ei rwydwaith ffyrdd cyfan yn unol ag amserlen ragderfynedig mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Rheoli Cynnal a Chadw Priffyrdd. Mae arolygwyr y priffyrdd yn rhestru amrywiaeth o ddiffygion sy'n uwch na lefel ymyriad y Cyngor neu sy'n beryglus i deithwyr. Cofnodir y diffygion a chânt eu categoreiddio ar gyfer eu hatgyweirio o fewn 15 niwrnod. Mae'r Cyngor hefyd yn paratoi cynllun tair blynedd ar gyfer gwaith cynnal a chadw arwynebu priffyrdd sy'n blaenoriaethu'r ffyrdd sydd i'w hatgyweirio o fewn y rhwydwaith ar ôl ystyried y ffactorau sydd ynghlwm. Mae'r cynllun cyfredol yn rhedeg o 2015-18. Fel arfer, bydd y Cyngor yn gwario oddeutu £900,000 bob blwyddyn ar waith atgyweirio ffyrdd megis llenwi ceudyllau, ac mae ganddo gyllideb asedion o tua £300,00 ar gyfer y gwaith arwynebu ffordd arfaethedig o fewn y rhwydwaith. Ar ben hynny, mae cynllun tair blynedd o fuddsoddi mewn arwynebu ffyrdd a fu gan y cyngor yn dirwyn i ben. Cynhaliwyd hwn dan nawdd Cynllun Benthycia Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru (LGBI), sy'n ceisio darparu arian i awdurdodau lleol gynyddu eu gwariant ar eu priffyrdd, rhoi sylw i'r pwysau ar gyllidebau a helpu gyda buddsoddiad cyfalaf yn ased y priffyrdd lleol. Roedd yn ofyniad gan yr LGBI i gais gael ei wneud i Lywodraeth Cymru ar ffurf cynllun busnes i gyfiawnhau gwella ansawdd arwyneb y ffyrdd o 8%. Llwyddodd y cynllun i ddarparu oddeutu £1.83m y flwyddyn arian dros y tair blynedd hyd at 2014/5.

1.3 Adolygu Cynllun ac Astudiaethau Trafnidiaeth Leol

Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol (RTP) Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta)

Cynllun statudol yw'r RTP, sy'n amlinellu strategaeth trafndiaeth integredig a chynaliadwy ar gyfer de-ddwyrain Cymru. Mae'r Cynllun yn cynnwys fframwaith strategol sy'n olrhain y materion i'w trafod, y dadansoddiadau, y weledigaeth, yr amcanion a'r polisiâu, cynllun gweithredu sy'n manylu ar weithredoedd a chynigion a chynllun pum mlynedd, a strwythur monitro ac adolygu. Fodd bynnag, cynllun pum mlynedd oedd yr RTP, a daw i ben ym mis Mawrth 2015. Er gwaethaf hyn, mae ei weledigaeth, ei amcanion polisi a'i nodau'n dal i fod yn ddilys, ac o'r herwydd, maent yn rhan o dystiolaeth sylfaen yr LTP hwn.

Archwiliad Cyfnewidfa Cerdded a Seiclo ac Arwyddbyst Sewta (2013)

Argymhellodd yr archwiliad hwn y dylid gwella adnoddau i gerddwyr a seiclwyr a gwella arwyddbyst mewn cyfnewidfydd cyhoeddus allweddol ledled de-ddwyrain Cymru. Mae'r argymhellion yn dal i fod yn ddilys, a defnyddiwyd hwy wrth baratoi'r LTP hwn.

Strategaeth Bysys Lleol a Thrafnidiaeth Gymunedol Sewta (2013)

Tynnodd Sewta sylw at nifer o faterion allweddol a allai fod yn rhwystrau i gyflawni amcanion yr RTP a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTP). Er mwyn datrys y rhain, rhestrodd Strategaeth Bysys Lleol a Thrafnidiaeth Gymunedol Sewta amcanion i annog defnyddio bysys. Mae'r rhain yn dal i fod yn ddilys, ac ystyriwyd hwy wrth baratoi'r LTP hwn er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wasanaethau bysys a'u galluogi i gynnig dewis trafndiaeth amgen go iawn, deniadol a chynaliadwy i'r car.

Strategaeth Seilwaith Bysys a Strategaeth Buddsoddi mewn Coridorau Sewta (diwygiwyd yn 2014)

O fewn ei Strategaeth Seilwaith Bysys a Strategaeth Buddsoddi mewn Coridorau, rhestrodd Sewta nifer o brif deithiau a fuasai'n elwa o flaenoriaethu seilwaith bysys ac adnoddau parcio a theithio. Mae nifer o'r teithiau hyn o fewn ffiniau Bro Morgannwg ac yn gynywysedig yn y LTP hwn.

Strategaeth Reilffyrdd Sewta (2013) – Trydaneiddio

Mae'r Strategaeth hon yn dal i fod yn ddilys ac mae'n cynnwys argymhelliad i ddyblu amllder y teithiau ar Linell Bro Morgannwg a darparu platfform newydd yng ngorsaf y Barri er mwyn caniatáu gwasanaeth cyflenwi i linell Ynys y Barri fel dewis amgen i'w gyflenwi am un o'i siwrneiau bob awr. Mae'r lleoliadau Parcio a Theithio a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol yn dal i fod yn uchelgais.

Adroddiad Parcio a Rhannu Sewta (2006)

Mae'r Adroddiad hwn yn argymhell nifer o leoliadau ar gyfer Parcio a Theithio / Parcio a Rhannu o fewn Bro Morgannwg, a defnyddiwyd y rhain yn yr LTP. Mae'r Adroddiad yn dal i fod yn ddilys a defnyddiwyd e wrth baratoi'r LTP hwn.

Astudiaeth Gwella Defnydd Priffyrdd Sewta (2011)

Nododd yr Astudiaeth hon restr fer o gynlluniau gwella cyffyrdd ar raddfa fechan i wella rhwydwaith gyfredol strategol y priffyrdd.

Adroddiad Gweithlu Integredig Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (2013)

Nododd yr Adroddiad hwn argymhellion tymor hir i gyflenwi system drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy, gyfoes ac integredig ledled de-ddwyrain Cymru, sy'n parhau i fod yn rhan o uchelgais y Cynllun hwn.

1.4 Adolygu Polisiâu a Chynlluniau Eraill

Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (Cymru'n Un – Cysylltu'r Genedl) (2008)

Mae'r Strategaeth hwn yn nodi nifer o ganlyniadau lefel uchel i gyflenwi trafndiaeth i Gymru a'r camau i wneud hyn.

Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTP) (2010)

Mae'r Cynllun hwn yn manylu ar fwriad Llywodraeth Cymru i osod trafndiaeth ar ben ffordd lleihau carbon tra ei fod yn sicrhau y gall barhau i gefnogi datblygu economaidd cynaliadwy a chynhwysedd cymdeithasol yr un pryd. Mae blaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol wedi symud buddsoddiad ymlaen a fydd yn golygu bod y system drafnidiaeth yng Nghymru'n gweithio'n well wrth fynd i'r afael â thlodi, gwella lles a helpu twf economaidd. Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru a bydd Cynllun wedi'i ddiweddarau'n cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2015. Rhagwelir y bydd yr LTP hwn yn cyfannu'r NTP newydd.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Pwrpas y Ddeddf hon ydy gofyn bod awdurdodau lleol yn gwella adnoddau a llwybrau i gerddwyr a seiclwyr yn gyson, ac i baratoi mapiau sy'n dynodi llwybrau cyfredol a rhai posibl ar gyfer y dyfodol at eu defnydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod cynlluniau ffyrdd newydd (yn cynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) yn ystyried anghenion cerddwyr a seiclwyr o'r cyfnod dylunio ymlaen.

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn datgan polisi teithio i'r ysgol i Gymru. Mae'n cynnwys cyflenwi gwelliannau i ddysgwyr drwy ymestyn hawl i drafnidiaeth i blant ifanc ynghyd â Chod Ymddygiad wrth Deithio Cymru (y Cod Teithio). Diweddarwyd y mesur yn 2014 ac mae bellach yn cynnwys y **Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014**, sy'n cynnwys y darpariaethau statudol mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu hystyried wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Canllawiau yma'n cynnwys arweiniad statudol ar asesu risg llwybrau cerdded i'r ysgol.

Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd ar gyfer Cymru (2013)

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi targedau diogelwch ar y ffyrdd LIC tan 2020, a'r gweithredu sydd ei angen i'w cyflawni. O'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfe 2004–08 mae LIC yn dymuno gweld:

- gostyngiad o 40% yn y nifer o bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020, sef 562 yn llai o anafedigion yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol
- gostyngiad o 25% yn y nifer o yrwyr beic modur sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020, sef 64 yn llai o anafedigion yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol
- gostyngiad o 40% yn y nifer o bobl ifanc (16-24 oed) sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020, sef 139 yn llai o anafedigion ifanc yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol

Mae LIC yn targedu'r grwpiau defnyddwyr y ffyrdd sy'n fwyaf agored i risg, ac mae'n cyd-weithio â'i holl bartneriaid ar hyn o bryd i gyflawni'r targedau yma, gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, awdurdodau lleol a'r drydedd sector. Bydd y Cyngor yn parhau i gyd-weithio â LIC i gyflawni'r targedau yma.

Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo Bro Morgannwg (2011 i 2026)

Mae'r LDP a'r polisïau a'r cynigion sydd ynddo'n deillio o'r gwaith yr ymgwymerwyd ag e fel rhan o'r anghenion i gyflawni gofynion trafndiaeth gynaliadwy y rhagwelwyd a fyddai'n rhan o weithredu'r LDP. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y LDP wedi'i Adneuo yn gynnar yn 2014. Fel rhan o'r broses hon, paratowyd tri phapur cefndir perthnasol, sef:

- Asesiad o Drafndiaeth Gynaliadwy (2013)
- Asesiad Trafndiaeth Cynigion yr LDP (2013)
- Cynllun Seilwaith (2013)

Strategaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru (2010)

Cytunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ei Strategaeth yn 2010 i sicrhau Cymru *iachach, hapusach a thecach*. Ei nod yw *gwarchod a gwella iechyd a lles ac unioni anghydraddoldebau iechyd*. Yn ei Strategaeth, mae'n cydnabod bod *Llywodraeth Leol yn hanfodol i iechyd a lles drwy gyfrwng, er enghraifft, ei gwasanaethau addysg, tai a'r amgylchedd ac wrth gwrs, drwy ofal cymdeithasol*. *Bydd y Gwasanaeth Iechyd yn ymwneud â hi'n fwy wrth gynllunio gwasanaethau ac yn elwa ar ei hyblygrwydd a'i chreadigrwydd i ehangu ystod ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol*. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i ymgysylltu â'i bartneriaethau â'r Gwasanaeth Iechyd i'w gynorthwyo i gyflawni'r amcanion sy'n gyffredin iddynt. Ar hyn o bryd, caiff hyn ei gyflawni drwy'r partneriaethau isod:

- Y Bartneriaeth Fwyd a Gweithgareddau Corfforol
- Ysgolion Iach

- Prosiect Gwella Iechyd Plant Ysgol (SCHIP)
- Cynllun Asesu a Gweithredu Digonoldeb Chwarae
- Cynllun Chwaraeon y Fro (LAPA)

Cynllun Gwella Llwybrau Hawliau Tramwy (ROWIP) (2007)

Pwrpas y ROWIP yw gweithredu fel fframwaith canolog i lywio gwaith y Cyngor ar wella a chynnal a chadw rhwydwaith hawliau tramwy'r sir ac i flaenoriaethu'r gwaith sy'n cael ei wneud arni. Mae'n ffurfio sail i'r cynllun gwaith blynyddol. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar weledigaeth ar gyfer rhwydwaith hawliau tramwy'r Fro drwy *ddarparu, cynnal a chadw a gwella rhwydwaith Llwybrau Hawliau Tramwy Cyhoeddus a mynediad i gefn gwlad i bawb, ac i hwyluso ac annog defnydd cyfrifol a chynyddol gyfleus a mwynhad cefn gwlad ac arfordir y Fro.*

Ymhlith yr egwyddorion allweddol mae mynediad i bawb, gwell wybodaeth a rhwydwaith well o lwybrau. Mae'r Fro yn sir amrywiol a chanddi arfordir hir, tir amaethyddol da a chanolfannau trefol. Mae tua 550 cilomedr (km) o lwybrau hawliau tramwy cyhoeddus (PROW) ym Mro Morgannwg, yn cynnwys 498km o lwybrau troed, 27km o lwybrau ceffyl a 27km o ffyrdd cefn. Yn ogystal, mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg a dau barc gwledig y sir yn gyrchfannau cefn gwlad hynod boblogaidd.

Bydd y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu ei waith i wella a chynnal a chadw'r Rhwydwaith.

Cyngor Bro Morgannwg - Adroddiad Economaidd ac Amgylcheddol

Adroddiad Grŵp Archwiliad Cyflawn y Pwyllgor Craffu ar Reoli Traffig – Ebrill 2014

Sefydlodd y Pwyllgor Craffu Grŵp Archwiliad Cyflawn i ystyried effeithiau llif traffig ym Mro Morgannwg. Cydnabu'r Grŵp fod LDP y Cyngor yn ystyriaeth bwysig, a bod ardaloedd o fewn Bro Morgannwg lle mae problemau tagfeydd yn amlwg. Nododd y Grŵp, a'r adroddiad a'r cynllun gweithredu a ddilynodd, nifer o flaenoriaethau a phwyntiau gweithredu. Gwnaethpwyd 18 argymhelliaid a nodwyd 28 gweithred wella benodol, yn amrywio o adolygiadau polisi i'r angen am astudiaethau dichonoldeb ac am wella'r ffyrdd i sefydlu mesurau trafndiaeth gynaliadwy. Cynhwysir y gweithredoedd perthnasol yn y cynllun hwn pan fo'n addas.

2. Materion i'w trafod. Cyfleoedd ac Ymyriadau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau'r effaith mae ei weithgareddau'n eu cael ar yr amgylchedd ac o'r herwydd, mae'n ceisio seilwaith a gwasanaethau trafndiaeth a fydd yn helpu aelodau'r cyhoedd i ddewis dulliau teithio cynaliadwy ar gyfer pob siwrmai lle bynnag mae'n bosibl.

Y bwriad yw helpu lleddfu effeithiau negyddol sŵn traffig a llygred yr aer, damweiniau ffordd a dirywiad cyffredinol yr amgylchedd. Ar yr un pryd, mae polisi'r Cyngor yn cynnig buddion posibl gwell iechyd a lles, gwell adnoddau i gerddwyr a seiclwyr a gwell nawdd i drafndiaeth gyhoeddus.

Er mwyn bod y Cyngor yn medru cyflawni'r nod hwn, mae gofyn ei fod yn parhau i ddarparu a gwella'r adnoddau sydd ar gael i gerddwyr, seiclwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus, gan

sicrhau dewis amgen i'r car sy'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn ymarferol, yn enwedig yn achos gyrwyr unigol. O ystyried hyn, cynhaliwyd archwiliad archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol o bob math o drafnidiaeth a'i seilwaith er mwyn i'r Cyngor fedru deall y ddarpariaeth bresennol ac ystyried y gofynion ychwanegol fyddai eu hangen i gyflawni'r nod.

Mae'r Tabl isod yn rhestru'r materion presennol i'w trafod, cyfleoedd ac ymyriadau a welir yn y Canllaw i'r LTP, a materion i'w trafod, cyfleoedd ac ymyriadau eraill a glustnodwyd fel rhai sy'n berthnasol i'r Cyngor ac y mae'n gyfrifol amdanynt.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
1	Darpariaeth gwasanaeth bws cyfyngedig yn y Fro wledig ers i'r grŵp bysys pentref dynnu'n ôl ym mis Gorffennaf 2013	Bod canolfannau cyflogaeth y tu hwnt i'r trefi'n derbyn gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sâl (Cyffordd 34) a Sain Tathan. Cysylltiad gwael rhwng cymunedau gwledig a gwasanaethau ac adnoddau.	Gwella mynediad i swyddi. Gwella mynediad i wasanaethau ac adnoddau. .	Ehangu trafnidiaeth gymunedol a'r rhwydwaith bysys gwledig i ddiwallu'r angen hwn drwy sicrhau ariannu S106/CIL i dalu am dtrafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau bws nad sy'n gynaliadwy fel llwybrau masnachol. Archwilio'r posibilrwydd o bartneriaeth â LIC gydag arian Ewropeaidd.	Mewn parnteriaeth â'r cwmnïau bysys, trafod ehangu'r gwasanaethau bws i gysylltu â'r canolfannau trefol a chyfnewidfeydd. Cynyddu lefel trafnidiaeth gymunedol i gyflenwi'r galw.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
2	Dim gwasanaethau bws gyda'r nos na thros y penwythnos i bentrefi gwledig, a gwasanaethau cyfyngedig mewn trefi ac ardaloedd trefol.	Mae diffyg bysys gyda'r nos a thros y penwythnos yn achosi trafferth wrth gyrraedd y gwaith a gweithgareddau hamdden, sy'n cynyddu'r ddibyniaeth ar geir preifat.	Cynyddu defnydd trafnidiaeth lesol a chynaliadwy, darparu gwell fynediad i swyddi, adnoddau a gwasanaethau hanfodol.	Ehangu'r rhwydwaith trafnidiaeth gymunedol i gynnwys nosweithiau a phenwythnosau ac annog cwmnïau bws i ddatblygu gwasanaethau masnachol lle mae hynny'n gynaliadwy. Gweithredu cynlluniau ffyrdd diogel yn y gymuned a llwybrau Teithio Llesol.	Cynyddu Trafnidiaeth Gymunedol i ddiwallu'r galw. Annog defnyddio'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gymunedol i gynnal a denu cwmnïau bws / darparwyr trafnidiaeth gymunedol i gymryd drosodd unwaith mae'r lefel o gwsmeriaid yn gynaliadwy. Cyflenwi cynlluniau llwybrau diogel yn y gymuned a nodwyd gan ysgolion a'r cyhoedd. Annog rhagor o bobl i wneud cais am y cynllun a'i weithredu. Neilltuo a chyflenwi llwybrau Teithio Llesol yn unol â deddfwriaeth Teithio Llesol.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
3	Diffyg gwybodaeth am y rhwydwaith bws ac amserlenni a diffyg siwrneiau integredig.	Mae cael mynediad i fysys i safleoedd cyflogaeth cyfredol a'r rhai sydd i ddod yn golygu cyfnewidfeydd a siwrneiau lluosog, sy'n gwneud siwrneiau'n gymhleth ac yn llai deniadol.	Gwell fynediad i swyddi. Gwasanaethau trafndiaeth hawdd i'w defnyddio. Integreiddio tocynnau. Gwell wybodaeth sy'n haws i'w deall am siwrneiau.	Datblygu'r rhwydwaith trafndiaeth gymunedol a gwasanaethau bws i ddiwallu'r angen am y symudiadau yma drwy geisio am ariannu S106 i ariannu trafndiaeth gymunedol a gwasanaethau bws lle buasent yn anghynnaladwy yn fasnachol. Defnyddio grant BSSG i wobrwyo cwmnïau bws am gynnig tocynnau didrafferth drwy wobrau safon perfformiad.	Mewn partneriaeth â'r cwmnïau bws, trafod ehangu'r gwasanaethau cyfredol, gan uno llwybrau lle mae angen cyfnewidfa a sicrhau bod amseru'r cysylltiadau'n dderbyniol. Annog defnydd tocynnau integredig. Cynyddu lefel y Drafndiaeth Gymunedol i ddiwallu'r galw. Meini prawf ar gyfer ariannu BSSG yn ne-ddwyrain Cymru.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
4	Nodweddir ardal Cymunedau'n Gyntaf yn y Barri gan ffigyrau perchnogaeth car isel. Mae mynediad i wasanaethau iechyd drwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn wael, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.	Mae'n bosibl y caiff rhai pobl eu rhwystro rhag manteisio ar gyfleoedd am swyddi neu weithgareddau hamdden yn ogystal â chael mynediad i adnoddau iechyd a gwasanaethau hanfodol eraill.	Gwasanaethau bws sy'n galluogi cymunedau i gael mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau. Gwneud y mwyaf o'r posibilrwydd o ddefnyddio bws a / neu drên i gyrraedd ardaloedd cyflogaeth allweddol a safleoedd a gwasanaethau eraill. Gwella cyfleoedd i deithio heb gar rhwng cymunedau a safleoedd gofal iechyd.	Ehangu trafndiaeth gymunedol a'r rhwydwaith bysys gwledig i ddiwallu'r angen hwn drwy sicrhau ariannu S106 i dalu am drafndiaeth gymunedol a gwasanaethau bws nad sy'n gynaliadwy fel llwybrau masnachol. Nodi'r llwybrau diogel yng nghynlluniau cymunedau a llwybrau Teithio Llesol, a'u datblygu yn yr ardaloedd perthnasol i sicrhau bod gwell gyfleoedd i gerdded a seiclo.	Cynyddu Trafndiaeth Gymunedol i ddiwallu'r galw. Annog defnyddio'r ddarpariaeth o drafndiaeth gymunedol i gynnal a denu cwmnïau bws / darparwyr trafndiaeth gymunedol i gymryd drosodd unwaith mae'r lefel o gwsmeriaid yn gynaliadwy Cyflenwi cynlluniau llwybrau diogel yn y gymuned a nodwyd gan ysgolion a'r cyhoedd. Annog rhagor o bobl i wneud cais am y cynllun a'i weithredu. Neilltuo a chyflenwi llwybrau Teithio Llesol yn unol â deddfwriaeth Teithio Llesol.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
5	Mae ffigyrau'r cyfrifiad yn datgelu ystod amrywiol ac ehangder daearyddol o drigolion, sy'n gynhenid heriol i ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus.	Mae patrymau byw gwasgaredig yn creu trafferthion ym maes hygyrchedd i wasanaethau allweddol. O ganlyniad, mae dibyniaeth helaeth ar ddefnydd ceir preifat.	Gwell fynediad i swyddi a gwasanaethau drwy ddulliau trafndiaeth cynaliadwy a theithio llesol.	Datblygu'r rhwydwaith trafndiaeth gymunedol a gwasanaethau bws i ddiwallu'r angen am y symudiadau yma drwy geisio am ariannu S106 i ariannu trafndiaeth gymunedol a gwasanaethau bws lle buasent yn anghynaliadwy yn fasnachol. Nodi'r llwybrau diogel yng nghynlluniau cymunedau a llwybrau Teithio Llesol, a'u gweithredu.	Cynyddu Trafndiaeth Gymunedol i ddiwallu'r galw. Annog defnyddio'r ddarpariaeth o drafndiaeth gymunedol i gynnal a denu cwmnïau bws / darparwyr trafndiaeth gymunedol i gymryd drosodd unwaith mae'r lefel o gwsmeriaid yn gynaliadwy. Cyflenwi cynlluniau llwybrau diogel yn y gymuned a nodwyd gan ysgolion a'r cyhoedd. Annog rhagor o bobl i wneud cais am y cynllun a'i weithredu. Neilltuo a chyflenwi llwybrau Teithio Llesol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
6	Problemau cael mynediad i wasanaethau iechyd o ganlyniad i ad-drefnu o fewn y Gwasanaeth Iechyd.	Mae newidiadau i leoliadau gwasanaethau allweddol fel iechyd yn debygol o gynyddu defnydd y car a gallai ynysu rai cymunedau.	Gwell fynediad i wasanaethau iechyd drwy ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a theithio llesol.	Sicrhau bod darparu trafnidiaeth yn cael ei ystyried drwy gydol y broses Gynllunio. Ffurio partneriaethau rhwng darparwyr gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus i ddatrys materion tebyg cyn bod y gwasanaeth newydd yn weithredol.	Ystyried darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus mewn partneriaeth â chwmnïau bws ac, os oes angen, datblygu a chynyddu dewisiadau amgen drwy dtrafnidiaeth gymunedol lle nad yw darpariaeth bws / trên yn gynaliadwy. Ystyried llwybrau teithio llesol.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
7	Y lefel isaf bosib o wasanaethau bws yn rhedeg yn y Fro wledig	Diffyg trafndiaeth fforddiadwy, gyfleus i rai cymunedau. Mae angen mynd i'r afael â'r problemau mae llawer o bobl yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i waith, addysg a gofal iechyd.	Mynediad fforddiadwy i swyddi, gwasanaethau ac addysg.	Datblygu'r rhwydwaith trafndiaeth gymunedol a gwasanaethau bws i ddiwallu'r angen am y symudiadau yma drwy geisio am ariannu S106 i ariannu trafndiaeth gymunedol a gwasanaethau bws lle buasent yn anghynaliadwy yn fasnachol.	Cynyddu Trafndiaeth Gymunedol i ddiwallu'r galw. Annog defnyddio'r ddarpariaeth o drafndiaeth gymunedol i gynnal a denu cwmnïau bws / darparwyr trafndiaeth gymunedol i gymryd drosodd unwaith mae'r lefel o gwsmeriaid yn gynaliadwy

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
8	Mae arolygon barn a data teithio i'r gwaith yn dangos nifer fawr o deithiau byr yn y car.	Mae canran uchel o deithiau cymudo, yn cynnwys teithio i'r ysgol, yn llai na 5km a gellid o bosib eu cyflawni mewn dull teithio llesol.	Gwella mynediad drwy ddulliau teithio llesol.	Ymgymryd â'n dyletswyddau yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 newydd. Rhagweld tueddiadau a darparu seilwaith ar gyfer llwybrau teithio llesol.	I'w pennu wrth i ni gyflawni dyletswyddau'r Ddeddf. Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn gweithredu cynllun seilwaith digonol i ymgorffori Teithio Llesol fel rhan o'r prosiectau. Cyflenwi cynlluniau llwybrau diogel yn y gymuned a nodwyd gan ysgolion a'r cyhoedd. Annog rhagor o bobl i wneud cais am y cynllun a'i weithredu.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
9	Diddymu'r gwasanaeth bws y pentrefi	Mae gostyngiad yn nifer y boblogaeth yn medru golygu diddymu rhai gwasanaethau lleol, sy'n gostwng lefel mynediad i wasanaethau allweddol, sydd yn ei dro'n arwain at ddiboblogaeth bellach.	Cefnogi ardaloedd gwledig drwy ddarparu mynediad o wasanaethau allweddol.	Datblygu'r rhwydwaith trafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau bws i ddiwallu'r angen am y symudiadau yma drwy geisio am ariannu S106 i ariannu trafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau bws lle buasent yn anghynladwy yn fasnachol.	Cynyddu lefel trafnidiaeth gymunedol i ddiwallu'r galw.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
10	Mae arolygon cynlluniau teithio'n darparu tystiolaeth fod cyfleoedd i wneud newidiadau sylfaenol.	Cyfleoedd i gynyddu cyfradd defnydd trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol.	Gwella mynediad i gyflogaeth yng nghanol trefi ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.	Ymgymryd â'n dyletswyddau yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 newydd. Rhagweld tueddiadau a darparu seilwaith ar gyfer llwybrau teithio llesol.	I'w pennu wrth i ni gyflawni dyletswyddau'r Ddeddf.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
11	Dydy ardaloedd twf mewn cyflogaeth ddim yn cyfateb i ardaloedd twf tai. Mae 45% o drigolion y Fro'n cymudo y tu hwnt i ddalgylch yr Awdurdod Lleol at bwrpas gwaith, y rhan fwyaf i Gaerdydd (Cyfrifiad 2011).	Angen cynyddol i deithio'n bellach fyth i ffwrdd i fanteisio ar gyfleoedd am waith.	Cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da i ardaloedd lle mae twf mewn cyflogaeth.	Lleoli cyfleoedd cyflogaeth nesaf at dai (LDP). Gwella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus, hyn cynnwys llwybr bws blaenoriaeth i Gaerdydd a seilwaith arosfannau bws. Gweithio gyda chwmnïau trafndiaeth gyhoeddus a darparwyr trafndiaeth gymunedol i ehangu'r rhwydwaith. Gwella a darparu adnoddau cyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus a pharcio a theithio / parcio a rhannu. Hyrwyddo a datblygu llwybrau teithio llesol. .	Cyflenwi safleoedd cyflogaeth nesaf at dai (LDP). Blaenoriaethu bws ar hyd coridorau trafndiaeth allweddol i Gaerdydd: Parcio a Theithio yn Cosmeston / Parcio a Rhannu ar safleoedd penodol y cyfeirir atynt yn Astudiaeth Parcio a Rhannu Sewta. Cyfnewidfa Trafndiaeth Gyhoeddus yn y Barri. Gwella teithio llesol. Cynlluniau Teithio i'r Gwaith. Cynlluniau Gwella Priffyrdd / Cyffyrdd fel rhan o gynigion yr LDP.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
12	Cyfradd uchel o deithiau'n digwydd mewn car. Tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd strategol.	Cynnydd mewn tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd strategol, siwrneiau hirach, llai o ddibynadwyaeth yn hyd amser y daith wrth symud pobl a nwyddau.	Lleihau tagfeydd a chyflawni gwell wytnwch ar y rhwydwaith priffyrdd strategol Gwella'r posibiliadau o deithio mewn dulliau ar wahân i'r car ar gyfer cymudo a rhesymau eraill.	Darparu blaenoriaeth i fsys ar y rhwydwaith priffyrdd strategol. Darparu seilwaith teithiol llesol i leihau defnydd ceir am siwrneiau lleol. Darparu llwybrau penodol i gymudwyr i gyfeirio ceir at goridor yr M4.	Rhoi blaenoriaeth i fsys ar hyd coridor Croes Cwrlwys i Sain Tathan drwy'r Maes Awyr. Darparu llwybr seiclo ar hyd yr un coridor ar gyfer siwrneiau lleol. Gwella'r A4226 (Five Mile Lane). Rhoi blaenoriaethau i fsys ar hyd coridor Dinas Powys i Gaerdydd, yn cynnwys Penarth a'r Morglawdd. Rhoi blaenoriaethau i fsys o Ben-y-bont i Gaerdydd ar hyd yr A48 drwy'r Bont-faen. Darparu llwybr seiclo ar hyd yr un coridor o annog Teithio Llesol ar siwrneiau lleol. Darparu arwyddbyst gwybodaeth i rybuddio am oedi a rhoi gwybod am deithiau amgen.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
13	Grwpiau cludiant trwm yn darparu data a gwybodaeth am symud nwyddau.	Darpariaeth i gerbydau nwyddau ar nifer o goridorau allweddol y rhwydwaith priffyrdd strategol. Gwrthdaro rhwng lorïau trwm a dulliau teithio llesol, yn benodol, seiclo.	Gwell fynediad i gerbydau nwyddau. Addysgu defnyddwyr er mwyn lleihau risg damweiniau ymhlith seiclwyr.	Gwella adnoddau parcio cerbydau trwm. Gwella darpariaeth gwybodaeth i gwmnïau cludiant i sicrhau bod cerbydau nwyddau'n cael eu cyfeirio at ffyrdd addas yn lle heolydd bach cefn anaddas. Addysgu drwy raglen diogelwch ar y ffyrdd.	Ystyried cyfleoedd ar gyfer lleoliadau parcio cerbydau nwyddau. Darparu gwell arwyddbyst ar hyd ffyrdd cerbydau cludiant trwm. Addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd i dargedu gyrwyr lorïau trwm a seiclwyr.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
14	Syrjeri bysus	Mae diffyg system docynnau integredig yn rhwystro anogaeth i symud i ddulliau eraill o deithio ac yn cyfyngu uchelgais teithio, yn enwedig mewn cymunedau diffreintiedig.	Siwrneiau didrafferth a thocynnau integredig.	Defnyddio grant BSSG i wobrwyo cwmnïau bws am gynnig tocynnau didrafferth drwy wobrau safon perfformiad.	Archwilio cyfleoedd ar gyfer system docynnau integredig gyda'r cyflenwyr.
15	Anafiadau personol a achosir gan wrthdrawiadau ar y briffordd	Mae gwrthdrawiadau ar y briffordd yn achosi anafiadau sy'n rhwystr i fabwysiadu mesurau teithiol llesol.	Lleihau nifer yr anafedigion yn unol â Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (2013).	Cyflwyno cyfres o gynlluniau peirianeg ffyrdd diogel, addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd.	Cyflenwi cynlluniau peirianeg i leihau risg gwrthdrawiad. Darparu addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd, gan dargedu'r grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed, y cyfeirir atynt yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (2013).

16	Tagfeydd traffig ysgol a phryderon am ddiogelwch ar y ffyrdd	Tagfeydd ar eu brig pan fo'r ysgol yn dechrau a gorffen o amgylch ysgolion.	Lleihau tagfeydd a diddymu risgiau diogelwch ar y ffyrdd. Cynyddu nifer y plant sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol.	Hyrwyddo, annog, datblygu a gweithredu llwybrau teithio llesol i'r ysgol. Hyrwyddo ac annog datblygu cynlluniau teithio ysgol.	Datblygu a gweithredu cynlluniau teithio llesol. Cyflenwi cynlluniau llwybrau diogel mewn cymunedau. Annog cynlluniau teithio ysgol. Darparu addysg diogelwch ar y ffordd, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd i'r grwpiau yma sy'n agored i niwed i bwysleisio peryglon y ffyrdd.
----	--	---	--	---	--

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
17	Arolwg Iechyd Cymru ar ffyrdd o fyw iachus a diffyg gweithgareddau corfforol.	Canran uchel o ddefnydd ceir a ffordd o fyw segur yn cyfrannu at iechyd gwael, e.e. mae 73.4% o weithwyr y Fro'n teithio yn y car (68.7% yn gyrru) (Cyfrifiad 2011)	Gostwng nifer y teithiau car. Cynyddu'r nifer o siwrneiau lle mae pobl yn cerdded, seiclo neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.	Hyrwyddo, datblygu a gweithredu llwybrau teithio llesol i wasanaethau allweddol. Hyrwyddo ac annog Cynlluniau Teithio a chynllunio teithiau.	Datblygu a gweithredu llwybrau teithio llesol. Hyrwyddo cynlluniau teithio drwy ysgolion, gweithleoedd ac ardaloedd preswyl newydd drwy'r broses gynllunio. Gweithredu cynlluniau llwybrau diogel mewn cymunedau a neilltuo a chyflenwi llwybrau teithio llesol. Gwella cyfnewidfeydd ac adnoddau trafnidiaeth gyhoeddus.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
18	Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer (Penarth / Dwyrain y Fro).	Gall llygredd trafndiaeth gael effaith ar iechyd a lles y cyhoedd.	Lleihau agweddau amgylcheddol negyddol trafndiaeth, fel sŵn, llygredd yr aer a gwelededd.	Cyflenwi gwelliannau mewn lleoliadau allweddol ar rwydwaith y priffyrdd i well a llif y traffig a lleihau tagfeydd. Gwella seilwaith a gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus. Gwella lleoliadau cyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus, adnoddau cyfredol a pharcio a theithio/parcio a rhannu i geisio lleihau nifer y cerbydau sy'n defnyddio ffyrdd mewn ardaloedd rheoli ansawdd yr aer. Hyrwyddo, datblygu a gweithredu cynlluniau teithio llesol.	Cyflenwi cynlluniau gwella seilwaith / coridorau bysys. Darparu adnoddau parcio a theithio / parcio a rhannu. Gwella cyfnewidfeydd trafndiaeth. Datblygu, hyrwyddo a gweithredu cynlluniau teithio llesol. Cyflenwi cynlluniau gwella priffyrdd mewn lleoliadau allweddol, yn enwedig Windsor Road, Penarth a choridor Dinas Powys. Annog llunio cynlluniau teithio.

Cyfeirnod	Tystiolaeth	Beth yw'r mater dan sylw?	Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni? (Canlyniadau)	Sut ydyn ni am wneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel)	Gweithredu Gofynnol (Cynlluniau)
19	Adborth defnyddwyr. Ystadegau troseddu.	Ofn yng nghyd-destun diogelwch personol wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, e.e. mae 31% o fenywod yn teimlo'n anniogel wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus gyda'r nos (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013/14).	Rhwydwaith trafndiaeth fwy deniadol a diogel i bob defnyddiwr.	Gwella canfyddiad defnyddwyr parthed diogelwch personol drwy wella seilwaith mewn lleoliadau esgyn a chyfnewidfeydd.	Gwella cyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus a lleoliadau parcio a theithio a pharcio a rhannu. Datblygu, gweithredu ac annog cynlluniau teithio llesol.
20	Ymateb i ymgynghoriad y ROWIP.	Problemau ag arwyddbyst, arwyneb y ffordd, camfeydd, diffyg llwybrau ceffyl, anhygyrch i bobl sy'n llai symudol, gwybodaeth (ar y safle ac oddi wrtho), materion i'w trafod a dewisiadau ar gyfer llwybrau'r arfordir a mynediad iddynt.	Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus mwy deniadol a hygyrch.	Gwella ffyrdd i ddileu rhwystrau corfforol i bawb. Darparu gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd ar hyd llwybrau.	Uwchraddio llwybrau i'w gwneud yn fwy deniadol a hygyrch. Darparu gwybodaeth drwy fapiau / gwefannau etc.

3. Cyfnod y Cynllun o 2015–20

Mae'r cynlluniau isod yn rhai y gellid eu cyflenwi dros y pum mlynedd nesaf, neu maen nhw eisoes yn cael eu paratoi i'w cyflenwi dros y pum mlynedd nesaf.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Ffynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Llwybr 88 y Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol a'r cysylltiadau lleol, trefol a gwledig sydd ynghlwm, yn cynnwys llwybrau newydd Deithio Llesol a neilltuwyd.	CBM	Darparu seilwaith seiclo i sefydlu rhwydwaith seiclo cenedlaethol yn unol â dymuniad Sustrans a chyrrff eraill cysylltiol. Dylid neilltuo rhagor o lwybrau Teithio Llesol wrth gyflawni dyletswyddau o fewn y Ddeddf Teithio Llesol.	Sustrans / RTP / LDP / Grwpiau yn y maes / llwybrau Teithio Llesol a neilltuwyd ar gyfer y dyfodol.	Wedi ymrwymo'n rhannol. I'w flaenoriaethu wrth i arian ddod ar gael a'i gysylltu â theithio Llesol.	Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.	Anhysbys – bydd dichonoldeb yn cael ei symud ymlaen mewn camau.	LTF, CRCG, SRIC, S106, CIL, Y Lotri Genedlaethol.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
A4050 Croes Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd Elfen 1: Ffordd Gysylltu Dociau'r Barri i'r Ganolfan Arddio, Gwenfô	CBM	Darparu seilwaith seiclo i sefydlu rhwydwaith seiclo cenedlaethol yn unol â dymuniad Sustrans a chynlluniau eraill, yn cynnwys Cynlluniau Teithio Ysgolion (STP). Mae'r ffordd hon hefyd yn cysylltu Maes Awyr Caerdydd â'r Barri a'r pentrefi gwledig, a'r posibilrwydd o gysylltiadau â Sain Tathan a'r Ardal Fenter. Mae rhannau o'r coridor eisoes yn eu lle.	NTP / LDP / Cynlluniau blaenorol sy'n manyly ar ofynion llwybrau seiclo.	Uchel	Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. (Cenedlaethol yng nghyd-destun y cysylltiad â Chaerdydd a'r Ardal Fenter.)	£390k	LTF / SRIC Nodyn: Bydd rhai o' rhannau'n cael eu cyflenwi gan gyfraniad datblygwyr.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
A4050 Croes Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd Elfen 2: yr A4050 o Port Road i Faes Awyr Caerdydd	CBM	Mae'r ffordd hon hefyd yn cysylltu Maes Awyr Caerdydd â'r Barri a'r pentrefi gwledig, a'r posibilrwydd o gysylltiadau â Sain Tathan a'r Ardal Fenter.	NTP / LDP /STP / Cynlluniau blaenorol sy'n manylu ar ofynion llwybrau seiclo.	Uchel	Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. (Cenedlaethol yng nghyd-destun y cysylltiad â Chaerdydd a'r Ardal Fenter.)	£1.1m	LTF, S106, CIL
Llwybr Seiclo o Lannau'r Barri i Ddinas Powys	CBM	Darparu llwybr seiclo oddi ar y ffordd o Gylchfan Biglis i Ddinas Powys i'w chysylltu â'r Barri.	LDP / RTP/ Sustrans / Cynlluniau blaenorol sy'n manylu ar ofynion llwybrau seiclo.	Uchel / Canolig Materion perchnogaeth tir i'w datrys yn gyntaf.	Rhanbarthol a Lleol.	Tua £600k a chostau tir	LTF, S106, CIL

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
A4050 Blaenoriaeth Bws Croes Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd	CBM	Darparu mesurau Blaenoriaeth Bws ar gyd y coridor cymudo hwn. (I gynnwys ystod o fesurau i wneud teithio ar y bws yn fwy deniadol, yn cynnwys seilwaith a gwybodaeth newydd.)	LDP / RTP / Metro	Cafwyd ariannu – i'w gyflenwi erbyn mis Mawrth 2016 (ymrwymwyd).	Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. (Cenedlaethol yng nghyd-destun y cysylltiad â Maes Awyr Caerdydd, yr Ardal Fenter a Chaerdydd.)	Ar hyn o bryd, clustnodwyd £1m ond gallai fod yn fwy.	Metro
Ffordd Gysylltu Ynys y Barri	CBM	Darparu ffordd fynediad newydd o'r Glannau yn y Barri i Ynys y Barri i leddfu traffig ar Sarn Ynys y Barri a chael mynediad i'r datblygiad newydd ar y Glannau.	LDP / caniatâd cynllunio'r Glannau.	Yn cael ei chyflenwi ar hyn o bryd (ymrwymwyd).	Rhanbarthol a Lleol.	£2.1m	Yn cael ei gyflenwi fel rhan o'r datblygiad cyfredol ar y Glannau a'r ariannu'n dod fel benthyciad a roddwyd i'r datblygwyr er mwyn cyflenwi'r cynllun hwn yn gynnar yn y datblygiad.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Silstwn – Yr Hen Felin B4265	CBM	Gwella'r ffyrdd lle mae cyfyngiadau lled garw ar yr heol fynediad i Sain Tathan, yr Ardal Fenter a'r Maes Awyr.	NTP	Yn cael ei gyflenwi ar hyn o bryd. Dylai fod wedi gorffen erbyn yn gynnar yn 2015. (Ymrwymwyd)	Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.	£2.2m	LIC
Gwella'r A4226 rhwng Waycock Cross, Y Barri a Sycamore Cross, yr A48 (Five Mile Lane)	CBM	Gwella'r coridor prysur iawn hwn i helpu gyda mynediad i'r rhwydwaith priffyrdd strategol ac i'r Maes Awyr a'r Ardal Fenter.	LDP / RTP/ NTP / WIIP	Uchel Yn archwilio iddo ar hyn o bryd gyda LIC. Mae'r dyddiad cyfleu yn dibynnu ar drafodaethau sy'n parhau.	Cenedlaethol	Tua £26m	LIC a CBM (adnoddau staff).
Gwella cyffordd Cross Common Road	CBM	Datrys mater pont wan.	LDP	Uchel / canolig. Yn cael ei drafod gyda'r datblygwr ar hyn o bryd, .	Lleol	I'w bennu.	Y datblygwr ac ariannu Cynllun Cyfalaf CBM.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbart hol neu Genedlaet	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Gwella Bonvilston Road i'r gogledd o'r A48	CBM	Gwella'r ffordd o Sycamore Cross i Bendeulwyn i wella llif y traffig a lleddfu tagfeydd.	LDP	Canolig	Lleol	I'w bennu	Y datblygwr, fel rhan o wella'r priffyrdd ar gyfer datblygiad arfaethedig yn Nhresimwn.
Y ffordd gyswllt rhwng yr A48 a Llantwit Major Road, Y Bont-faen	CBM	Cyswllt gorllewinol newydd rhwng yr A48 a'r B4270.	LDP	Canolig	Lleol	Cyfraniad y datblygwr yn dibynnu ar y dichonoldeb ..	Y datblygwr, fel rhan o wella'r priffyrdd ar gyfer datblygiad.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaeth	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Gweithredu Gwella Ffyrdd Lleol	CBM	Gweithredu cynlluniau gwella ffyrdd lleol ar goridor Cardiff Road, Y Barri; yr A4231 / A4055 / B4267 – cylchfan Biglis; cyffordd y Merrie Harrier, Penarth; coridor Windsor Road – Cogan, Penarth; Sarn Ynys y Barri / Harbour Road.	Pwyllgor Craffu'r Economi a'r Amgylchedd – Grŵp Archwilio Manwl Rheoli Traffig.	Uchel	Lleol	Amrywiol yn unol â chynlluniau a dichonoldeb.	Ariannu referniw mewnol, cyfraniadau datblygwr S106 LTF.
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau	CBM	Datblygu llwybrau diogel mewn cymunedau. Cynnal ymyriadau seilwaith sy'n helpu pobl i gael mynediad i ysgolion a gwasanaethau drwy ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy..	Ysgolion a chymunedau lleol.	Uchel	Lleol	Costau amrywiol ar draws nifer o gynlluniau.	Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, S106 / CIL, RDP, nawdd.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Cynlluniau peirianeg y priffyrdd er lles diogelwch ar y ffyrdd	CBM	Gweithredu cynlluniau peirianeg y priffyrdd er lles diogelwch ar y ffyrdd i fynd i'r afael â risg cyfredol damwain ar y briffordd, gan ddefnyddio'r ystadegau a gofnodwyd yn adroddiad Stats 19, i foddhau targedau a restrwyd yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru tan 2020.	Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru	Uchel	Lleol, Cenedlaethol	Costau amrywiol ar draws nifer o gynlluniau. Bydd meini prawf grant LIC yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu cynlluniau a defnyddir y prawf blaenoriaethau i asesu'r ardaloedd uchaf eu risg i weithredu cynlluniau.	Grant Diogelwch ar y Ffyrdd, LTF, cyfraniad datblygwyr, S106 / CIL / RDP / cynllun cyfalaf y Cyngor.

Enw'r cynllun	Yr Awdu rdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwy dd Lleol, Rhanbarth ol neu Genedlaeth	Cost	Ffynhonn ell /au ariannu
Addysg, Hyfforddiant a Chyhoeddusrwydd Diogelwch ar y Ffyrdd	CBM	Gweithredu cynlluniau Addysg, Hyfforddiant a Chyhoeddusrwydd Diogelwch ar y Ffyrdd sy'n mynd i'r afael â risg cyfredol damwain ar y briffordd, gan ddefnyddio'r ystadegau a gofnodwyd yn adroddiad Stats 19, i foddhau targedau a restrwyd yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru tan 2020.	Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru	Uchel	Lleol / Cenedlaethol	Caiff lefel yr addysg, yr hyfforddiant a'r cyhoeddusrwydd i ddiogelwch ar y ffyrdd ei phennu gan lefel yr ariannu mewnol a thrwy grant sydd ar gael i gyflenwi ymyriadau o'r fath. Byddwn yn chwilio am nawdd preifat i gyflenwi cynlluniau o'r fath yn ogystal.	Grant diogelwch ar y ffyrdd, ariannu referniw mewnol, nawdd preifat.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus	CBM	Gwella'r rhwydwaith llwybrau tramwy cyhoeddus i annog defnydd ohonynt.	ROWIP	Canolig	Lleol	Bydd nifer y llwybrau fydd yn cael eu gwella'n dibynnu ar lefel yr ariannu sydd ar gael.	S106 / CIL / RDP / cynllun cyfalaf y Cyngor / cynllun ariannu ROWIP / CAIP / Partneriaeth NRW.
-----------------------------	-----	---	-------	---------	-------	---	---

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Gwasanaeth 321 – o Lanilltud Fawr i'r Bont-faen a Thonysguboriau	CBM	Gwasanaeth bws lleol prawf wedi'i gefnogi fydd yn uno dau o leoliadau strategol gwasanaethau bws lleol cyfredol. Bydd y gwasanaeth yn cysylltu gyda'r gwasanaeth 320 presennol yn Nhonysguboriau a'r 303 yn Llanilltud Fawr. Bydd amserau'r gwasanaethau yma'n cael eu hadolygu i sicrhau bod y cysylltiadau'n gweithio'n llyfn.	Y Tîm Trafnidiaeth Gyhoeddus	I fod i ddechrau ym mis Ionawr 2015 (yn disgwyl cymeradwyaeth y Cabinet). (Ymrwymwyd)	Rhanbarthol a Lleol	£40k y flwyddyn	Cyllideb Sefydlog Cefnogi Bysys Lleol / Adran 106.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks (cerbyd/au ychwanegol)	CBM	Darparu cerbydau ychwanegol i aelodau cymuned cynllun trafndiaeth gymunedol Greenlinks, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Bro Morgannwg. .	Y Tîm Trafnidiaeth Gyhoeddus	Canolig Y cynnydd yn y galw am wasanaethau Greenlinks fydd yn arwain y galw am gerbydau ychwanegol.	Lleol	I'w bennu yn ôl y galw.	Cyfraniadau S106.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdo d Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Cynllun Peilot Llywodraeth Cymru - darpariaeth Trafnidiaeth Integredig o fewn yr awdurdod.	CBM	Fel rhan o gynllun trafndiaeth integredig a ariennir gan LC, mae'r Tîm Trafnidiaeth Gyhoeddus yn cyflwyno elfennau o dtrafnidiaeth gymunedol, gwasanaethau prif ffrwd a chludiant y gwasanaethau cymdeithasol. Ariannodd y cynllun hwn gerbyd newydd i Greenlinks, sy'n cael ei ddefnyddio i gyfuno'r dulliau trafndiaeth yma, oedd yn cael eu cyflenwi'n allanol gynt.	Y Tîm Trafnidiaeth Gyhoeddus	Ar y gweill (ymrwymwyd)	Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol (yn dibynnu ar lwyddiant y cynllun peilot).	£54k ar gyfer dau gerbyd drwy ariannu LIC. £25k ar feddalwedd amserlennu addas. Adnoddau staff CBM.	LIC Os bydd y cynllun yn llwyddiant, bydd elfennau pellach yn cael eu hariannu gan gyllidebau sefydledig y Cyngor.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Gwasanaeth 303 / 304 – o Ben-y-bont ar Ogwr i Lanilltud Fawr i'r Rhws i Gaerdydd	CBM	Bydd y Tîm Trafnidiaeth Gyhoeddus yn gweithio gyda chwmnïau bws lleol i wella darpariaeth bysys lleol drwy estyn y gwasanaeth ymhellach i gynnwys Ysbyty Llandochau ar bob taith bosibl.	Y Tîm Trafnidiaeth Gyhoeddus	I ddechrau ym mis Ebrill 2015 (ymrwymwyd)	Lleol, Rhanbarthol	£0	Ddim ar gael
Pwerau troseddau traffig symudol	CBM	Ystyried gwneud cais am bwerau i gosbi troseddau gyrru megis sefyll ar gyffordd bocs melyn, troi'n anghyfreithlon a defnydd gwaharddedig o lonydd bysys.	Deddfwriaeth	Uchel	Lleol	Anhysbys ar hyn o bryd	CBM / LIC

** Gallai blaenoriaeth bysys gynnwys nifer o ymyriadau, yn cynnwys: lonydd bws, uwchraddio arosfannau, gwella gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, gwella cyffyrdd sy'n cynyddu dibynadwyaeth y gwasanaeth bws neu unrhyw ymyriad allai wella profiad y teithiwr ar y bws. Rhaid cloriannu effaith unrhyw ymyriad i gynnwys effeithiau negyddol ar dagfeydd a'r buddion i drafnidiaeth gyhoeddus.

Yn ogystal, i liniaru effaith unrhyw ddatblygiad ar rwydwaith y priffyrdd, bydd gofyn cyflenwi cynigion gweithfeydd gwella'r priffyrdd ar ffurf cynlluniau gwella coridorau trafndiaeth yn unol â gofynion yr LDP.

Er nad yw o fewn gallu'r Cyngor i drydaneiddio Llinell Bro Morgannwg, mae'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor wrth gyflawni ei uchelgais o ddatblygu rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy.

4. Uchelgeisiau Tymor Canolig a Thymor Hir hyd at 2030

Neilltuwyd y cynlluniau isod i'w cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun hwn.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Adnodd Parcio a Theithio Bws yn Cosmeston	CBM	Darparu adnodd Parcio a Theithio / Parcio a Rhannu Bws 500 gofod yn Cosmeston, Penarth.	RTP / yr LDP arfaethedig	Canolig	Rhanbarthol	Amcan £3m	Ariannu grant LTF a S106 / CIL.
Yr A48 o Groes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr	CBM	Darparu llwybr seiclo o Groes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr ar hyd yr A48.	LDP	Canolig	Rhanbarthol a Lleol	Anhysbys ar hyn o bryd – mae angen astudiaeth ddichonoldeb	Ariannu grant LTF a S106 / CIL.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Eglwys Brewis Road ar y cyd â'r Ffordd Fynediad Ogleddol arfaethedig yn Ardal Fenter Sain Tathan	CBM	Darparu llwybr seiclo o Eglwys Brewis i Lanilltud Fawr ac uno Sain Tathan a'r Ardal Fenter â'r gyfnewidfa fws a thrên yn Llanilltud Fawr.	LDP	Canolig	Lleol a Chenedlaethol	Anhysbys ar hyn o bryd – mae angen astudiaeth ddichonoldeb.	LTF, ariannu grant SRIC a S106 / CIL.
Yr A48 o Groes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr drwy'r Bont-faen.	CBM	Darparu blaenoriaeth fws o Groes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr ar hyd yr A48. (I gwmpasu ystod o fesurau i wneud teithio ar y bws yn fwy deniadol, yn cynnwys adeiledd a dulliau rhannu gwybodaeth newydd.)	LDP / RTP	Canolig	Lleol a Rhanbarthol	Anhysbys ar hyn o bryd – mae angen astudiaeth ddichonoldeb.	LTF, Metro a S106 / CIL.

Enw'r cynllun	Yr Awdurdod Lleol	Crynodeb	Fynhonnell	Lefel y flaenoriaeth	Pwysigrwydd Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol	Cost	Ffynhonnell /au ariannu
Ffordd Fynediad Ogleddol (Ardal Fenter Sain Tathan)	CBM	Ffordd newydd i gynnig mynediad i'r Ardal Fenter yn ogystal â datblygiad tai newydd fel y nodir yn yr LDP.	LDP / NTP	Canolig	Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol (yng nghydestun y cysylltiad â'r Ardal Fenter).	Anhysbys ar hyn o bryd.	Wedi'i ariannu fel rhan o ddatblygiad yr Ardal Fenter a safleoedd preswyl cyfagos.
Cyfnewidfa Gorsaf Drên Dociau'r Barri a Bws	CBM	Cyfnewidfa fws a thrên newydd	LDP / RTP	Canolig	Lleol	Tua £3.5m	LTF / S106 / CIL.

Yn ogystal, i liniaru effaith unrhyw ddatblygiad ar rwydwaith y priffyrdd, bydd gofyn cyflenwi cynigion gweithfeydd gwella'r priffyrdd ar ffurf cynlluniau gwella coridorau trafndiaeth yn unol â gofynion yr LDP.

Talfyriadau: LDP - Cynllun Datblygu Lleol, RTP - Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol, NTP - Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol, LTF- Cronfa Trafnidiaeth Leol, S106 - Cyfraniadau Datblygwyr, CIL - Ardoll Seilwaith Cymunedol, SRIC - Ffyrdd Diogel mewn Cymunedau, RDP - Cynllun Datblygu Gwledig, WIIP - Cynllun Buddsoddiad Seilwaith Cymru, S TP - Cynlluniau Teithio Ysgolion

3. Gwiriadau Statudol

Cynhaliwyd Gwerthusiad Cynaliadwyedd (SA) cyflawn ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ar bolisiau, nodau, amcanion a chynlluniau arfaethedig yr RTP yn 2010. Mae'r LTP hwn yn adlewyrchu'r RTP cyfredol a'r argymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen. Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau i'w bolisiau, ei nodau na'i amcanion. Mae'r cynlluniau rhanbarthol strategol a nodwyd yn yr LTP hwn wedi deillio o'r RTP ac maent wedi cael eu gwerthuso eisoes. Fodd bynnag, bydd gwerthusiad pellach yn cael ei gynnal ar bwynt gweithredu cychwynnol pob cynllun unigol.

Fel rhan o broses yr LDP, mae gofyn bod y Cyngor yn cynnal Gwerthusiad Cynaliadwyedd ar y Cynllun, sy'n ymgorffori gofynion Cyfarwyddyd yr SEA. Y rheswm am hyn yw cynorthwyo'r Cyngor i adnabod unrhyw effeithiau sylweddol economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mae'r LDP yn debygol o'i chael. Wrth wneud hyn, mae'n golygu y gall y Cyngor sicrhau bod yr LDP yn cynnwys mesurau addas i liniaru'r effeithiau negyddol ac i wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol.

Mae pob cam o baratoi'r LDP wedi bod yn destun asesiad wedi'i gloriannu ag amcanion a methodoleg yr SA. Mae hyn yn cynnwys gwerthusiad o'r Strategaeth Ffaffriedig, sy'n cynnwys Gweledigaeth, Amcanion Strategol, Dewisiadau Strategol a Pholisïau Strategol sydd wedi cael eu symud ymlaen a, lle bu'n addas, ei ddatblygu i ffurfio rhan o'r LDP wedi'i Adneuo. O ganlyniad, mae'r Weledigaeth, yr amcanion, y strategaeth, y polisïau a'r cyfrannau wedi cael cloriannu â'r amcanion fel rhan o'r gwerthusiad systematig. Maent yn cynnwys:

- Rhoi cyfle i bobl ddiwallu eu hanghenion am dai.
- cynnal, hyrwyddo ac ehangu ystod yr adnoddau lleol.
- Cynnal a gwella mynediad i bawb.
- Lleihau achosion amddifadrwydd.
- Cynnal, gwarchod a chodi ysbryd cymunedol.
- Lliniaru effeithiau a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Lleihau gwastraff.
- Defnyddio tir mewn ffordd gyfrifol ac effeithlon.
- Gwarchod ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol a gwneud.
- Darparu amgylchedd o safon uchel o fewn pob datblygiad newydd.
- Gwarchod, mireinio a hyrwyddo ansawdd a chymeriad diwylliant a threftadaeth Bro Morgannwg.
- Lleihau'r angen i deithio a hwyluso defnydd dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.

- Darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd am swyddi lleol.
- Cynnal a mireinio bywiogrwydd a dichonoldeb canolfannau tref, ardal a lleol y Fro.

Y Sefyllfa Gyfredol:

Mae pob ymateb a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus yr LDP wedi'i Adneuo'n cael ei goladu a'i ymgorffori fel bo'n addas fel rhan o broses y Cyngor o wneud penderfyniadau wrth iddo gwblhau'r LDP. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn paratoi ei ymatebion i'r materion a godwyd i baratoi i gyflwyno'r LDP wedi'i Adneuo, Adroddiadau'r SA / SEA a dogfennau cysylltiol i Lywodraeth Cymru yn ystod gwanwyn 2015.

Bydd yr LDP a'r Adroddiad SA'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru (rhagwelir y bydd hyn ym mis Ebrill 2015) er mwyn iddynt gael eu hasesu'n ddiduedd. Bydd yr adroddiad SA'n cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r Cynllun wedi'i Adneuo mewn archwiliad diduedd a bydd yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth sylfaen. Gall yr Arolygydd wneud argymhellion neu awgrymu newdiadau o ganlyniad i'r archwiliad a bydd gofyn i'r Cyngor eu gweithredu. Byddai ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw newidiadau a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar yr LDP. yn cael ei ystyried.

Nid yw Asesiadau Effaith ar Iechyd (HIA) yn wiriad statudol, ond mae Llywodraeth Cymru'n argymhell eu defnyddio mewn sawl dogfen ganllaw, yn cynnwys Canllaw Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (Weltag). Cynhaliwyd HIA cyflawn ar strategaethau, amcanion, polisïau a chanlyniadau bwriadedig yr LDP. Gan fod cynllun yr LDP yn gyson â'r LDP, ac y bydd yn cefnogi ei gyflenwi, ni ystyrir ei bod yn angenrheidiol cynnal proses ar wahân ar gyfer yr LDP.

Mae Asesiadau Rheoleiddio Cynefin (HRA) yn ofynnol yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd ar gyfer cynlluniau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd European Natura 2000 a Ramsar. Cynhaliwyd HRA ar amcanion strategol dewisiadau a pholisïau twf, yn cynnwys y casgliad o bolisïau trafndiaeth strategol a manwl. Wedi adolygu gofynion HRA, ni chynhaliwyd asesiad ar wahân i'r LDP oherwydd bod y cynlluniau yn rhaglen pum mlynedd yr LDP yn cael eu datblygu i gofnodi cyflenwi twf yn y dyfodol ym Mro Morgannwg fel y manylir yn yr LDP. O'r herwydd, ni ddyfernir bod HRA yn ofynnol ar gyfer yr LDP.

Datblygwyd y Cynllun hwn mewn cydymffurfiaeth â Chanllaw Cynllunio Atodol y Cyngor gan ddal datblygu cynaliadwy mewn cof i sicrhau bod pob datblygiad a seilwaith yn darparu symudiad rhwydd a diogel ar gyfer pob dull o deithio. Mae'r cynigion trafndiaeth o fewn y Cynllun hwn yn rhoi blaenoriaeth i'r dulliau teithio rheiny sy'n fwyaf cynaliadwy fel y'i nodwyd yn yr hierarchaeth isod:

Cerddwyr
Seiclwyr
Trafnidiaeth Gyhoeddus
Cerbydau Modur Preifat

4. Ymgynghori

Gwahoddwyd ymgynghorwyr statudol i wneud sylwadau ar y cynlluniau trafnidiaeth fel rhan o broses ymgynghorol Cynllun Drafft yr LDP wedi'i Adneuo yn 2013 pan gynhaliwyd nifer o gyfarfoddydd cyhoeddus i drafod yr LDP ledled Bro Morgannwg.

Cynhaliwyd ymgynghoriad sylweddol ar y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol yn 2009/10 cyn iddo gael ei weithredu.

Cafodd y Cynllun hwn ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor Cyflawn at bwrpas ymgynghori

(Rhagfyr 2014).

Mae'r ymgynghorwyr ar gyfer yr LTP hwn yn cynnwys yr ymgynghorwyr perthnasol i drafnidiaeth o fewn proses yr LDP.

Ymgynghorwyd â Bwrdd Rhanbarth Dinas Caerdydd yn unol â chanllawiau'r LTP.

Ymgynghorwyd â phob Awdurdod Lleol sy'n ffinio â'r Fro yn unol â chanllawiau'r LTP.

5. Monitro a Gwerthuso

Er mwyn mesur effaith y buddsoddiad mewn trafnidiaeth a gyflenwir, cydnabyddir ei bod yn hanfodol i fonitro a gwerthuso cynlluniau ym mhob achos. O'r herwydd, bydd gofyn bod cynllun yn dangos gwelliannau i ddarpariaeth trafnidiaeth sy'n cynnig gwerth am arian da ac yn gyrru twf economaidd ac yn cloriannu hyn â'r angen am gynaliadwyedd. Er bod gwerthuso'n bwysig, cydnabyddir bod angen iddo fod yn gost effeithiol ac yn gymesur. O ystyried hyn, bydd dull Cyngor Bro Morgannwg o gyflawni hyn yn amrywio i adlewyrchu hanfod a graddfa'r cynllun dan sylw. Y bwriad yw i'r Cyngor ddatblygu sylfaen dystiolaeth gyson i ddangos yn eglur bod canlyniadau ac effeithiau wedi cael eu cyflenwi'n effeithlon a bod amcanion cynlluniau wedi cael eu cyflawni.

I sicrhau bod pob cynllun (p'un a ydyn nhw'n rhai Refeniw, Cyfalaf, bach neu fawr) yn llwyddiannus, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu system o sefydlu, rhedeg a gorffen cynlluniau. Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar PRINCE2 (Projects in Controlled Environments), system reoli prosiect sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflenwi'n effeithlon bob tro. Bydd y system hon yn cael ei defnyddio i gyflenwi pob prosiect a weithredir gan y Cyngor.

Mae system y Cyngor yn cyd-fynd â'r Canllawiau a roddir gan LC i fonitro a gwerthuso cynlluniau sy'n cael eu cyflenwi o fewn LTP, ac mae'n cydnabod yr angen i drin monitro a gwerthuso fel proses tymor hir ac nid fel rhywbeth fwrdd â hi.

Bydd hyn yn galluogi i'r Cyngor ddysgu gan bob prosiect a sicrhau ei fod wedi bod yn werth chweil, ac ar yr un pryd, helpu i leihau risgiau cynlluniau tebyg sydd i ddod.

Pan fod ymyriad yn cael ei ystyried, ac achos busnes ar gyfer ariannu'n cael ei baratoi, bydd cynllun monitro a gwerthuso'n cael ei greu sy'n manylu ar yr angen am y prosiect, disgrifad manwl ohono ac amcanion yr ymyriad. Bydd hefyd yn cyflwyno cyd-destun yr ymyriad a'r mewnbynnau, yr allbynnion, y canlyniadau arfaethedig, yr amcanion a'r effeithiau angenrheidiol. Bydd y cynllun yn datgan pa dystiolaeth a ddefnyddir yn adroddiad gwerthuso'r prosiect.

Bydd y cynllun monitro a gwerthuso hefyd yn cynnwys amserlen cynhyrchu'r adroddiad gwerthuso.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, bydd y dystiolaeth a ddefnyddir i gyflwyno'r cyd-destun, y mewnbynnau, yr allbwnion, y canlyniadau bwriadedig a'r effeithiau go iawn yn cael ei seilio ar y data mwyaf cyfredol sydd ar gael. Bydd y cynllun monitro a gwerthuso'n datgan pa ddefnydd fydd yn cael ei wneud o ddata perthnasol sydd eisoes wedi cael ei gasglu ac a fydd ar gael pan fydd yr adroddiad yn cael ei baratoi. Lle bo'n addas, defnyddir setiau data a ddarperir yng nghanllaw'r LDP, a bydd data penodol yn cael ei gasglu o dan rai amgylchiadau pan fod angen. Pan ddarperir data cyfrif i ddarparu dystiolaeth yn wahanol i'r arfer, bydd y Cyngor yn defnyddio Canllaw proses yr LTP i gyflawni cyfrif o'r fath.

Yn dilyn cwblhau ymyriad, bydd adroddiad gwerthuso'n cael ei baratoi o fewn terfyn amser a nodir yn y cynllun gwerthuso. Bydd yr adroddiad yn mesur allbwnion, canlyniadau ac effeithiau go iawn fel y'i hargymhellir yn nogfen Canllaw'r LTP gan ddefnyddio'r mesurau yn y tablau isod.

Y math o gynllun	Nod	Cyfeirydd	Ffynhonell Ddata
Cynlluniau Teithio Llesol	Cynyddu nifer y siwrneiau seiclo	Y nifer o bobl sy'n seiclo	Cyfrif beiciau Cynlluniau Teithio
	Cynyddu nifer y plant sy'n seiclo i'r ysgol	Y nifer o blant ysgol sy'n seiclo	Cynlluniau Teithio Ysgolion / Arolygon Barn
	Cynyddu darpariaeth llwybrau seiclo oddi ar y ffordd fawr	Cynyddu hyd pob llwybr seiclo oddi ar y ffordd fawr	Awdurdodau Lleol
	Cynyddu darpariaeth llwybrau seiclo ar y ffordd fawr	Cynyddu hyd pob llwybr seiclo ar y ffordd fawr	Awdurdodau Lleol
	Cynyddu seilwaith ac adnoddau Teithio Llesol	Cynyddu nifer adnoddau parcio beic diogel Diweddarau mapio Teithio Llesol cyfredol	Awdurdodau Lleol
	Cynyddu nifer y standiau beic mewn cyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus	Cynyddu nifer y standiau beic mewn cyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus	Awdurdodau Lleol
Cynlluniau Parcio a Theithio	Cynyddu nifer y mannau Parcio a Theithio	Cynyddu nifer y mannau Parcio a Theithio	Awdurdodau Lleol
	Cynyddu nifer defnyddwyr Parcio a Theithio	Nifer y bobl sy'n defnyddio Parcio a Theithio	Monitro nifer y ceir sy'n defnyddio adnoddau Parcio a Theithio
	Cynyddu nifer y lleoliadau Parcio a Theithio	Nifer y lleoliadau newydd Parcio a Theithio	Awdurdodau Lleol
	Cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio adnoddau parcio a theithio a rhwydwaith y rheilffyrdd	Nifer defnyddwyr y trenau / data tocynnau mewn gorsaf parcio a theithio	Cwmnïau Trenau

Y math o gynllun	Nod	Cyfeirydd	Ffynhonnell Ddata
Cynlluniau Gwella'r Priffyrdd	Lleihau nifer a difrifoldeb damweiniau ffordd ac anafedigion	Data pennawd KSI	Cyfeiryddion yr Awdurdod Lleol / LIC
	Gwella amserau a dibynadwyaeth siwrneiau	Amserau siwrneiau	Awdurdodau Lleol
	Lleihau tagfeydd ger cyffyrdd strategol allweddol	Amserau siwrneiau, cyfrif traffig	Awdurdodau Lleol
	Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd neu ger cyffyrdd strategol allweddol	Data monitro Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer	Awdurdodau Lleol
	Gwella llif traffig a chlodiant effeithlon drwy gyffyrdd strategol allweddol	Arolygu traffig	Awdurdodau Lleol
Cynlluniau Seilwaith Bysys	Cynyddu nifer y teithwyr	Nifer y teithwyr a gludir ar hyd y siwrnai	Cwmnïau cludo teithwyr
	Gwella mynedia i wasanaethau bws i bawb	Y canran o arosfannau bws lle mae ymyl y pafin wedi'i godi	Awdurdodau Lleol
	Gwella dibynadwyaeth a phrydlondeb	Y canran o siwrneiau sy'n ddim mwy na phum munud yn hwyr nac un funud yn gynnar yn y man penodedig	Cwmnïau cludo teithwyr, Awdurdodau Lleol, defnyddwyr bysys
	Gwella adnoddau arosfannau	Y canran o arosfannau bws â chysgod, Y nifer o adnoddau cyfnewidfeydd wedi'u huwchraddio	Awdurdodau Lleol
	Gwella cyfleoedd ar gyfer cyfnewidfeydd	Nifer y cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus newydd	Awdurdodau Lleol
	Gwella llif gwybodaeth	Y canran o arosfannau bws lle mae gwybodaeth amserlenni	Awdurdodau Lleol
	Gwella diolgewch	Y canran o fsys lle ceir CCTV. Y nifer o arosfannau lle ceir CCTV.	Cwmnïau bws / Awdurdodau Lleol